

## Cefndir

Prosiect peilot oedd Dyma Ni gyda'r nod o gefnogi pobl anabl rhwng 17-30 oed. Deilliodd y prosiect o fwlch canfyddedig yn y gefnogaeth i bobl ifanc ag anabledau yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, wrth i bobl ifanc ag anabledau gyrraedd 18 oed, mae gostyngiad yn y cymorth sydd ar gael sy'n hwyluso integreiddio cymdeithasol.

## Cyfranogwr 4

Roedd perthynas Cyfranogwr 4 yn credu bod gallu cymysgu â phobl o'r un oed â nhw a'r cyfle i gwrdd â phobl newydd yn cael ei weld yn fantais fawr i'w datblygiad a'u hapusrwydd:

**"Mae hi wrth ei bodd yn mynd yno. Mae hi'n cymysgu gyda grŵp oedran ei hun, yn gwneud llawer o bethau yno sy'n ei bodloni hi a ni - mae hi'n meddwl y byd y lle."**

Roedd Dyma Ni'n rhoi boddhad iddyn nhw yn y pethau maen nhw'n eu gwneud, ac roedd yn gyfle i'w cael nhw allan o'r tŷ ac i ffwrdd o sgrin cyfrifiadur:

**"Er mwyn iddi fynd allan, cwrdd â phobl newydd a dysgu sgiliau newydd - mae'r stwff celf yn dda i'w dwylo fod yn gwneud rhywbeth heblaw eistedd ar ei chyfrifiadur neu ffôn."**

Disgrifiodd perthynas Cyfranogwr 4 sut maen nhw wedi dod allan o'u cragen yn amlach ac wedi bod yn cael mwy o brofiadau cymdeithasol gyda phobl eraill ers dechrau yn Dyma Ni:

**"Rwy'n meddwl bod y ffaith ei bod wedi magu hyder trwy gyfarfod a rhannu profiadau gyda phobl eraill yn ei grŵp oedran."**



Maent hefyd wedi gweld Dyma Ni fel man cychwyn i fwynhad y cyfranogwr o goginio a ffotograffiaeth

Nododd y perthynas fod y cyfranogwr wedi gwneud gwaith gwirfoddol lleol o'r blaen ond iddo gael ei ryddhau oherwydd ei fod yn agored i niwed.

Fodd bynnag, mae'r perthynas bellach yn nodi bod hyder a sgiliau cymdeithasol y cyfranogwr wedi datblygu'n aruthrol ers hynny, ac mae'n teimlo y gallent ymgymryd â rolau gwirfoddoli yn y dyfodol:

**"Gwnaeth hi wirfoddoli... Roedd hi'n siomedig iawn pan fu'n rhaid iddyn nhw adael iddi fynd oherwydd ei bod yn agored i niwed. Mae hi'n 21 ac mae hi'n gallu cael sgysiau braf gyda phobl, ond weithiau mae'n teimlo ei bod hi'n llawer iau na 21. Mae ei sgiliau cymdeithasol yn bendant wedi datblygu - byddai hi'n dda am wneud mwy o wirfoddoli nawr, dwi'n meddwl."**

Mae'r perthynas wedi'i synnu gan gynnydd y cyfranogwr a bod Dyma Ni yn caniatáu i'r cyfranogwr brofi'r hyn y mae'n gallu ei wneud. Ar ben hynny, mae Dyma Ni yn darparu seibiant i'r teulu, gyda'r wybodaeth bod y cyfranogwr mewn amgylchedd diogel a gofalgar tra bod y teulu'n gallu ymlacio gartref.

Methodd y cyfranogwr Dyma Ni yn ystod cyfnod cloi COVID-19 a dywedodd eu perthynas y byddai'n drychineb pe bai'r grŵp yn dod i ben. Roeddent yn poeni y byddai'r cyfyngiadau cloi yn eu gwneud yn 'ddiflas', ond fe geision nhw eu cadw'n brysur o amgylch y tŷ yn ystod y cyfyngiadau. Ar ben hynny, fe wnaethant nodi bod y cyfranogwr yn ystod y cyfnod cloi wedi cael cyswllt rheolaidd â thîm Dyma Ni, sydd hefyd yn cymryd rhan mewn teithiau cerdded lleol gyda'i gilydd a gwibdeithiau gyda'r cyfranogwr.



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

